## DISGRIFIAD SWYDD

**Cyfeirnod a Theitl y Swydd:** Cydgysylltydd Gwirfoddoli

**Yn adrodd i'r:** Prif Swyddog Gweithredol

**Oriau yr wythnos a chyfraddau:** 30 awr ar gyfradd o hyd at £14.35 yr awr yn dibynnu ar brofiad.

**Diben y rôl:**

Arwain ein rhaglen wirfoddoli, penodi a chefnogi gwirfoddolwyr mewn amrywiaeth o wahanol brosiectau yn O'r Gwraidd i'r Brigau a Stori Brymbo.

**Beth yw'r fantais i chi:**

Mae hwn yn gyfle unigryw i weithio gydag amrywiaeth fawr o bobl ar brosiect lleol cyffrous ac uchelgeisiol, er budd y gymuned leol. Byddwch yn hogi'r sgiliau sydd gennych yn barod ac yn datblygu rhai newydd drwy gamau datblygu a lansio'r prosiectau hyn. Bydd rhywbeth i'ch cadw'n brysur drwy'r amser, cewch eich herio i ddatrys problemau a meddwl yn gyflym. Yn rhan o dîm cefnogol, byddwch yn tyfu ac yn cyflawni canlyniadau na allai unrhyw un ohonom eu sicrhau ar ein pennau eich hunain. A byddwch yn cael hwyl!

**Canlyniadau penodol:**

1. Rheoli ein rhaglen wirfoddoli.

2. Creu cynlluniau gweithredu.

3. Sicrhau bod y canlyniadau sydd wedi eu cynllunio ar gyfer y cynllun gwirfoddoli wedi eu darparu'n llawn, yn brydlon ac o fewn y gyllideb.

4. Gweithio'n agos ac yn gydweithredol gyda'r tîm ehangach.

5. Darparu hyfforddiant cynefino, bugeiliol a chymorth hyfforddi fel y bo'r gofyn.

6. Goruchwylio staff a gwirfoddolwyr fel y bo'r gofyn.

7. Gwrando ar syniadau'r gwirfoddolwyr a'r adborth er mwyn gwella ein rhaglen yn barhaus.

8. Adeiladu cysylltiadau gyda phartneriaid yn cynnwys AVOW, WCVA, Gwasanaethau Treftadaeth Wrecsam, rhwydweithiau treftadaeth lleol a sefydliadau trydydd sector.

9. Cadw cofnodion cadarn o wirfoddolwyr a'u cyfranogaeth.

10. Cynhyrchu adroddiadau ansawdd am ein gweithgareddau gwirfoddoli i'n hariannwyr.

11. Sicrhau bod yr holl bolisïau a gweithdrefnau perthnasol yn cael eu dilyn, yn cynnwys iechyd a diogelwch.

12. Gweithio gyda'r nos ac ar y penwythnosau fel y bo'r gofyn.

Manyleb y person

**Profiadau, sgiliau a nodweddion hanfodol:**

• Cyfeillgar, cefnogol, trefnus, meddwl agored ac awyddus i ddysgu.

• Profiad o weithio gydag amrywiaeth o wahanol fathau o bobl a chyfathrebu â nhw.

• Profiad o ymgysylltiad cymunedol.

• Profiad o ddarparu hyfforddiant.

• Profiad o weithio gyda chyllidebau.

• Cyfathrebwr da (wyneb yn wyneb, dros y ffôn, ar yr e-bost a'r cyfryngau cymdeithasol).

• Hyddysg â chyfrifiaduron (yn ddelfrydol, byddwch yn gyfarwydd â Microsoft Office 365 – word/excel/PowerPoint ac ati, Teams).

• Hyderus a dibynadwy fel arweinydd.

• Yn gallu datrys problemau ac yn gweithio fel aelod o dîm.

• Brwdfrydig iawn am gyfranogaeth gymunedol a chynhwysiad cymdeithasol.

• Hynod frwdfrydig am gydraddoldeb a'r iaith Gymraeg.

**Manteisiol ond nid yn hanfodol:**

• Profiad o ddatblygu a darparu prosiectau.

• Profiad o reoli prosiectau.

• Adfywiad a arweinir gan dreftadaeth.

• Yn siarad Cymraeg.

***Ariennir y rôl hon gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol a'r Gronfa Gymunedol.***

Dyddiad Cau'r Cais: Dydd Sul 21 Ebrill 2024

Canolfan Asesu: Dydd Llun 29 Ebrill 2024

Apwyntiad: Dydd Mawrth 30 Ebrill 2024

I wneud cais, anfonwch e-bost yn nodi bod gennych ddiddordeb (heb fod yn hirach nag 1 ochr o A4) a'ch CV i: victoria.davies@brymboheritage.co.uk

*I gael rhagor o wybodaeth am Ymddiriedolaeth Treftadaeth Brymbo, ewch i: www.brymboheritagetrust.org neu dewch o hyd i ni ar y cyfryngau cymdeithasol.*